**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**25 TACHWEDD 2016**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Pwnc:** | Diweddariad ar berfformiad CA4 y rhanbarth |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Prif bwrpas yr adroddiad yw cyflwyno diweddariad ar berfformiad diwedd Cyfnod Allweddol 4 (CA4).

## 2.0 Cefndir a Materion i'w Hystyried

2.1 Cafodd yr adroddiad oedd yn cyflwyno gwybodaeth gynnar am berfformiad diwedd cyfnod allweddol ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16 ei drafod yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ym mis Medi. Gwybodaeth gychwynnol yn unig am ganlyniadau CA4 a rannwyd bryd hynny.

2.2 Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad diwedd Cyfnod Allweddol 4 (CA4) ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16.

2.3 Pwysleisir mai gwybodaeth dros dro yw'r wybodaeth a gyflwynir ar ganlyniadau CA4 o hyd. Mae angen gofal felly wrth ystyried y wybodaeth gan na fydd y dadansoddiadau na'r cymariaethau yn cael eu cwblhau ar lefel genedlaethol tan tua throad y flwyddyn.

2.4 Mae'r adroddiad yn rhan bwysig o'r broses hunanarfarnu ac yn cynnig y cyfle i holi cwestiynau ynglŷn â sut mae'r rhanbarth yn perfformio a'r hyn sydd ei angen wrth symud ymlaen.

## 3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor derbyn cynnwys yr adroddiad.

**4.0 Goblygiadau ariannol**

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o’r adroddiad hwn.

**5.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o’r adroddiad hwn.

**6.0 Goblygiadau Personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o’r adroddiad hwn.

**7.0 Ymgynghori a wnaed**

7.1 D/B.

**8.0 Atodiadau**

8.1 Adroddiad i ddiweddaru Cyd-bwyllgor GwE am berfformiad CA4 y rhanbarth

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim sylwadau i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.